Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfarfod o'r Bwrdd
16 Hydref 2013

Teitl y Papur	**Cynllun Corfforaethol y Bwrdd a Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Dangosfwrdd** **Nodyn a Gweithrediadau o gyfarfod 20 Medi 2013**
Cyfeirnod y Papur:	NRW B (O) 41.13
Ysgrifennwyd y Papur gan:	Mark Hughes

Pwrpas y Papur:	**Gwybodaeth**
Argymhelliad:	Nodi prif eitemau'r drafodaeth
Penderfyniad sydd ei Angen:	Nid yw'n berthnasol

Effaith: Nodir – efallai nad yw bob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Nid yw'n berthnasol **Effaith ar yr Economi**: Nid yw'n berthnasol **Effaith ar Bobl a Chymunedau**: Nid yw'n berthnasol **Effaith ar Wybodaeth**: Nid yw'n berthnasol

Cynllun Corfforaethol y Bwrdd a Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Dangosfwrdd

Nodyn a Gweithrediadau o gyfarfod 20 Medi 2013

Nigel Reader
Ruth Hall
Madeleine Havard
John Hogg
Mark Hughes
Mark Jones

1. Roedd y Dangosfwrdd a gafodd ei gyflwyno i gyfarfod o'r Bwrdd ar 4 Medi 2013 o flaen y Grŵp ac ystyriwyd y pwyntiau a oedd yn codi o drafodaeth y Bwrdd. Nodwyd bod y Prif Weithredwr, Emyr Roberts wedi dynodi yn nhrafodaeth y Bwrdd ei fwriad i adolygu'r lefel uchelgais mewn rhai o'r targedau ac, os yw'n briodol, eu hailosod. Cytunodd y Grŵp i ildio'r mater i Emyr.

2. Roedd cytundeb bod y Dangosfwrdd, er gwaethaf rhai diffygion, yn declyn a oedd yn gweithio'n dda ar gyfer blwyddyn un. Byddai'r Grŵp yn cynghori ynghylch ymdrin â diffygion a gwneud gwelliannau lle y gellid gwneud hynny'n hawdd o fewn y flwyddyn a pharchu'r angen i gynnal uniondeb y 46 mesur a gytunwyd arnyn nhw'n flaenorol. Disgwyliwyd y byddai'r cyngor a roddwyd i swyddogion wrth wella'r Dangosfwrdd yn cael eu bwydo'n ôl i'r Bwrdd yn y pen draw er mwyn cadarnhau unrhyw newidiadau a wnaed. Mae'r Grŵp yn disgwyl bod yn grŵp gorchwyl a gorffen, yn y lle cyntaf yn ymroddi i'r Dangosfwrdd presennol cyn symud i edrych ar y Cynllun Corfforaethol a'r Fframwaith Perfformiad/Dangosfwrdd cysylltiedig.

3. Yn y dyfodol dylai fersiynau o bapur clawr y Dangosfwrdd gynnwys datganiad o bwrpas y Dangosfwrdd. Yn ogystal, bydd hyn yn cynnwys swyddogaeth lywodraethol y Bwrdd a defnydd o'r Dangosfwrdd mewn cynnal penderfyniadau busnes a chynllunio'n y dyfodol.

4. Dylid disodli'r defnydd o "cynllunio" a "tystiolaeth wedi'i ddarparu mewn pryd" gyda manylion o'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd er mwyn caniatáu i'r Bwrdd weld trywydd archwilio wrth gyflawni eu swyddogaeth lywodraethol.

5. Byddai blaenoriaethau Gweinidogol yn cael eu hannog ymhellach ar y Dangosfwrdd ac yn cael eu hamlygu yn nhestun yr Adroddiadau Cryno**.**

6. Rydym yn gwneud lles i'n cwsmeriaid rheoledig drwy siop un stop a thrwy ymdrin â'r gwaith achos dylem nodi sut rydym wedi gwneud gwahaniaeth i bobl.

7. Rydym yn gostwng digwyddiadau colli amser oherwydd iechyd, diogelwch a lles, a dylem gymryd agwedd mwy pragmatig yn gwahanu'r uchelgais sero oddi wrth gwir darged. Gallai targed realistig fynegi mesur o wellhad o'r baslin, o bosibl wedi deillio o berfformiad etifeddol.

8. Dylai'r mesurau sy'n cynnwys enw da gael amlygu eu safle cyflawn yn y papur clawr ar gyfer cyflwyniadau o'r Dangosfwrdd yn y dyfodol. Yn ychwanegol at y tri mesur, dylai hyn gynnwys y mesur ar gael llai o ddigwyddiadau amgylcheddol difrifol - o safbwynt sut yr ydym ni'n delio â nhw. Ystyriwyd yr angen am wybodaeth o arolwg cwsmeriaid yn rhan o'r mesur Ymateb i Geisiadau a nodwyd y byddai adroddiad ar wahân ar yr arolwg cwsmeriaid yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn hwyrach yn y flwyddyn.

9. Rydym yn rhoi cyngor arbenigol ar y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a dylem ymatal rhag adrodd am drefniadaeth gweithdai ac edrych ar ddarnau allweddol o gyngor y gallwn eu darparu.

10. Dylai mesur Gwella Mynediad i'r Arfordir Cymru ddarparu mwy o fanylder am ei gyflawni mewn gwirionedd - nifer o bartneriaid y bu'n gweithio gyda nhw, nifer o gilometrau a gyflawnwyd ayyb.

11. Dylai'r mater o or-gyflawni yn y mesurau Niferoedd Ymwelwyr a Gwarchod Eiddo rhag Llifogydd adlewyrchu'r gor-gyflawni gyda chynigion am dargedau newydd.

12. Dylid nodi'r gweithredoedd arfaethedig er mwyn gwella amgylchedd trefol Cymru.

13. Dylid amlinellu'r mater o weithio mewn partneriaeth mewn ffordd debyg i'r mater o enw da, gan ddefnyddio'r mesurau ar Dewch Allan, iTree a Chynllun Gwella Hawliau Tramwy**.**

14. Dylai'r mesur sy'n edrych ar Iechyd Planhigion a chlefydau adlewyrchu'n well yr anhawster i lynu wrth rybuddion yr ydym yn eu cyflwyno, er nodwyd bod hyn wedi'i gynnwys yn nhestun yr Adroddiad Cryno.

15. Awgrymir bod y mesurau ar Warchod mwy o bobl rhag llifogydd mewn lleoliadau risg uchel yn cael ei symud i bortffolio Rheoli Risg Llifogydd a Digwyddiadau gan ei fod yn ymwneud â chynnal asedau.

16. Dylai'r mesur ar Ddeall a Rheoli ein Heffaith ein Hunain ar yr Amgylchedd nodi rhai o'r materion penodol gwirioneddol sy'n cael eu cyflawni, megis lleihau Carbon Deuocsid.

Pwyntiau i'r grŵp eu nodi mewn gwaith yn y dyfodol:

17. Byddwch yn ofalus o gais Cadeirydd y Bwrdd i'r dangosfwrdd gael ei "driongli" gyda'r Gofrestr Risg Corfforaethol, yn ogystal â'r Cynllun Corfforaethol/Busnes, a'r Llythyr Gorchwyl.

18. Byddwch yn ofalus y gall y mesurau presennol fod angen parhad i'r fframwaith perfformio newydd er mwyn sicrhau parhad wrth fonitro tueddiadau.

19. Dylai cynrychioli sut rydym yn arloesi gael ei dynnu i mewn i fframwaith perfformiad yn y dyfodol.

20. Dylai mesurau sy'n ymwneud â'n cyngor ar y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ystyried pa mor effeithiol ydyn nhw wrth sicrhau ymlyniad i'r Gyfarwyddeb.

21. Dylid datblygu gweithio mewn partneriaeth yn y fframwaith perfformiad yn y dyfodol.

22. Bydd gwireddu buddion a chyflawni targedau breinio angen eu datblygu ymhellach gan yr adran dangosfwrdd presennol pan mae'r fframwaith perfformiad wedi cael ei ddatblygu.

23. Dylai sesiynau o’r grŵp hwn yn y dyfodol ganolbwyntio ar ddatblgu’r Cynllun Corfforaethol a’r Fframwaith Perfformiad ar gyfer 2014 ymlaen. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn digwydd wyneb yn wyneb.